

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## DYDD IAU, 23 MEHEFIN 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd W.T. Evans (Chair) (yn y siambr)

### Cynghorwyr (Yn y Siambr):

E. Skinner D.E. Williams

### Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen	J.M. Charles	T. Davies	M. Donoghue
N. Evans	J.K. Howell	J.D. James	J.P. Jenkins
A.C. Jones	M.J.A. Lewis	D. Owen	B.D.J. Phillips
R. Sparks	G.B. Thomas	M. Thomas	

### Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

Y Cyngorydd S Rees, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif **PL/03872**  
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

### Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd  
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr  
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio  
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)  
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu  
R. Davies Ymgynghorydd Cynllunio Asiantaeth  
Z. Baxter, Swyddog Rheoli Datblygu  
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]  
G. Morgan Peiriannydd Cynorthwyol  
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd  
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

### Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.28 yb - 1.19 yp

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:

- Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad diffuant i deulu'r cyn-Gynghorydd, y Cyngorydd John Edwards a fu'n cynrychioli Ward Saron ac a fu'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio rhwng 1999 a 2012.
- Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad diffuant i deulu'r cyn-Gynghorydd Penny Edwards, a fu'n cynrychioli Ward Hengoed tan yr etholiadau ym mis Mai 2022 ac a fu'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ers 2017.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P Cooper.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd / Swyddog	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd E. Skinner	3: PL/03872 Ceisir cymeradwyo Materion a Gadwyd yn ôl ar gyfer mynediad, golwg, tirlunio, cynllun a graddfa ar gyfer Cam 1 Datblygiad Llesiant a Gwyddor Llanelli, a elwir bellach yn Bentre Awel ar gyfer datblygu Hwb Iechyd a Llesiant sy'n cynnwys cyfleusterau iechyd, hamdden, addysg, ymchwil a busnes a chanolfan ynni, ynghyd â'r amgylchfyd cyhoeddus cysylltiedig, manau agored, tirlunio caled a meddal, draenio, cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr a pharcio, llefydd parcio ceir a seilwaith ategol gan gynnwys mesurau lliniaru a gwella o amgylch yr Hwb Iechyd a Llesiant arfaethedig a pherimedr Afon Dafen Newydd, Llynnoedd Delta ym Mhentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli, Tir yn Llynnoedd Delta, Llanelli.	Mae'n byw yn agos at y datblygiad arfaethedig.
Y Cynghorydd M. Donoghue Y Cynghorydd N. Evans Y Cynghorydd J. James Y Cynghorydd E. Skinner Y Cynghorydd M. Thomas	3. PL/02652 Dymchwel tŷ ac adeiladu tŷ newydd, lle parcio a gwaith cysylltiedig, Bronllys, Heol y Mynydd, Pen-bre, Porth Tywyn, SA16 0AJ.	Mae'r asiant (David Darkin o Darkin Architects) yn gyfaill agos personol.

### 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

PL/00765	<b>Newid defnydd hen stablau i fragdy ar raddfa fach (ôl-weithredol), Ysgubor, Felindre, Llandysul, SA44 5XS.</b>
PL/02652	<b>Dymchwel tŷ ac adeiladu tŷ newydd, lle parcio a gwaith cysylltiedig, Bronllys, Heol y Mynydd, Pen-bre, Porth Tywyn, SA16 0AJ.</b>  [Noder: Wrth ystyried yr eitem hon, roedd y Cynghorwyr M. Thomas, E. Skinner, J. James, N. Evans ac M. Donoghue wedi datgan buddiant gan fod yr asiant, sef David Darkin oDarkin Architects, yn gyfaill agos personol. Ar y pwynt hwn, gadawodd y Cynghorwyr M. Thomas, E. Skinner, J. James, N. Evans a M. Donoghue y cyfarfod, heb gymryd unrhyw ran bellach yn y drafodaeth na phleidleisio ar y cais].
PL/02659	<b>Cadw llety byw y capel presennol fel preswylfa breifat, gan gynnwys ymestyn a newid defnydd llawr presennol y capel i lety preswyl sy'n gysylltiedig â'r prif breswylfa (defnydd dosbarth D1 i C3(A) preswylfa), Capel Stryd yr Undeb, Heol yr Undeb, Caerfyrddin.</b>
PL/03777	<b>Cynnig i greu pwll nofio (domestig) a chyfleuster ffitrwydd cysylltiedig, 4 Hendre Road, Llangennech, Llanelli, SA14 8TG.</b>
PL/03872	<b>Ceisir cymeradwyo Materion a Gadwyd yn ôl ar gyfer mynediad, golwg, tirlunio, cynllun a graddfa ar gyfer Cam 1 Datblygiad Llesiant a Gwyddor Llanelli, a elwir bellach yn Bentre Awel ar gyfer datblygu Hwb Iechyd a Llesiant sy'n cynnwys cyfleusterau iechyd, hamdden, addysg, ymchwil a busnes a chanolfan ynni, ynghyd â'r amgylchfyd cyhoeddus cysylltiedig, manau agored, tirlunio caled a meddal, draenio, cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr a pharcio, llefydd parcio ceir a seilwaith ategol gan gynnwys mesurau lliniaru a gwella o amgylch yr Hwb Iechyd a Llesiant arfaethedig a pherimedr Afon Dafen Newydd, Llynnoedd Delta ym Mhentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli, Tir yn Llynnoedd Delta, Llanelli.</b>  [Noder bod y Cynghorydd E. Skinner, wrth ystyried yr eitem hon, wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a ddylai ddatgan buddiant gan ei fod yn byw yn agos at y datblygiad arfaethedig. Yn dilyn y cyngor hwnnw, datganodd y Cynghorydd E. Skinner fuddiant a gadawodd y cyfarfod, gan gymryd dim rhan bellach yn y drafodaeth na phleidleisio ar y cais].

<p>Cafwyd sylw gan aelod lleol yn cefnogi'r cais ar sail yr arfarniad a nodwyd yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio. Yn benodol, croesawodd yr aelod lleol yr anogaeth a roddwyd i gwmnïau a chyflenwyr lleol gymryd rhan yn y prosiect, a allai arwain at gyfleoedd gwaith a hyfforddiant ychwanegol yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r prosiect yn y dyfodol. At hynny, mynegodd yr aelod lleol gefnogaeth i greu Gwasanaeth Bws Arfordirol newydd a phwysleisiodd y dylid darparu'r seilwaith hwyluso o fewn cam 1 y prosiect.</p> <p>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried.</p>
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

#### 4. PERFFORMIAD Y GWASANAETH CYNLLUNIO - CHWARTER 4

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Perfformiad Gwasanaeth Cynllunio Chwarter 4, a oedd yn cynnwys dangosyddion monitro perfformiad craidd ac a oedd yn adlewyrchu'r cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Darparwyd data cymharol mewn perthynas â 2020/21 hefyd.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol 18 a 19 yn ymwneud â chanran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd a chanran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd wedi'u rhagori am y tro cyntaf. Cyflawnwyd gwelliant amlwg mewn perfformiad hefyd mewn perthynas â'r Dangosyddion Perfformiad Lleol.

Cyfeiriwyd at ddangosyddion perfformiad 13-15 sy'n ymwneud â gorfodi, lle'r oedd aelod yn holi ynghylch effaith materion sy'n ymwneud â ffosffadau ar lefelau perfformiad ac yn ceisio sicrwydd bod gan yr Is-adran ddigon o adnoddau i fynd i'r afael â nifer y cwynion sy'n gysylltiedig â gorfodi. Roedd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn falch o adrodd mai Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yr awdurdod cynllunio cyntaf yng Nghymru i lansio cyfrifiannell ffosffadau i helpu datblygwyr i gyfrifo effaith eu prosiect ar lefelau ffosffadau lleol, ac roedd hyn wedi arwain at welliant sylweddol o ran mynd i'r afael â materion o'r fath. At hynny, eglurwyd bod yr Is-adran wedi'i had-drefnu i alluogi aelodaeth lawn o Swyddogion Gorfodi i reoli achosion gorfodi ac y byddai'r sefyllfa'n parhau i gael ei monitro. Yn hyn o beth, nododd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd fod Dangosydd Perfformiad 14 (Canran o achosion gorfodi sydd wedi cau yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod) yn dangos cynnydd o bron i 400% mewn achosion sydd wedi cau yng nghyfnod adrodd 2021/22 a bod y gostyngiad o 14% mewn achosion sydd wedi cau "ar darged" o 50% i 36% yn gysylltiedig â'r ffocws ar ddatrys achosion hanesyddol.

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor, cytunodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd i gynnal cyfarfod diweddarau mewnol i Aelodau a Swyddogion y Pwyllgor ystyried ymhellach faterion yn ymwneud â gorfodi, gan gynnwys amserlenni a'r weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion gorfodi.

## **PENDERFYNWYD**

- 4.1 Derbyn yr adroddiad.
- 4.2 Trefnu cyfarfod diweddarau mewnol i Aelodau a Swyddogion y Pwyllgor ystyried ymhellach faterion sy'n ymwneud â gorfodi, gan gynnwys amserlenni a'r weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion gorfodi.

### **5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28AIN EBRILL 2022**

**PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 28 Ebrill 2022 gan eu bod yn gywir.

Wrth ddirwyn y cyfarfod i ben, talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cynghorydd A. Lenny am y cyfraniad a'r arweiniad clodwiw a ddarparwyd yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

---

**CHAIR**

---

**DATE**